

Cynllun Datblygu Ysgol Y Berllan Deg

2025-2026

Crynodeb Cyhoeddedig



Hunan-werthuso'r ysgol: crynodeb

Cryfderau:

Adroddiad arolygiad Estyn Mawrth 2025 yn nodi bod:-

- y pennaeth, arweinwyr a'r holl staff yn cydweithio'n effeithiol i greu amgylchedd dysgu gofalgarg a chroesawgar i ddisgyblion.
- y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu, gan ymfalchio yn eu hysgol a'u cynefin
- perthynas waith cryf rhwng staff a disgyblion ym mhob dosbarth
- rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn enwedig wrth ddatblygu eu medrau llafar
- llythrennedd yn cael ei feithrin yn dda ar draws y cwricwlwm
- safonau mathemateg yn gadarn gydag athrawon yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu a chymhwyso eu medrau mathemategol drwy ddatrys problemau bywyd go iawn
- yr ysgol yn cynnig cefnogaeth effeithiol i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol
- trefniadau trosglwyddo i'r ysgol uwchradd wedi'i drefnu'n dda iawn
- ymddygiad disgyblion ar draws yr ysgol yn dda iawn.

Meysydd i'w datblygu:

- Arolygiad Estyn Mawrth 2025 yn nodi nad yw athrawon bob amser yn herio disgyblion ymhellach er mwyn sicrhau eu bod yn gwneud y cynnydd gorau
- Arolygiad Estyn Mawrth 2025 yn nodi nad yw arweinwyr bob amser yn gosod camau gweithredu digon manwl nac yn arfarnu effaith camau gweithredu ar wella ansawdd addysgu a dysgu.
- Arolygiad Estyn Mawrth 2025 yn nodi nad yw'r llywodraethwyr bob amser yn herio'r arweinwyr ar agweddau allweddol o'r ddarpariaeth yn ddigon effeithiol i sicrhau gwelliant parhaus
- Arolygiad Estyn Mawrth 2025 yn nodi bod angen cryfhau arweinyddiaeth strategol a gwella gweithdrefnau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant er mwyn cryfhau a chysoni darpariaeth

GWERTHUSIAD CYNLLUN DATBLYGU YSGOL 2024/25

Blaenoriaeth	Gwerthuso cynnydd
BLAENORIAETH 1 – Parhau i ddatblygu a mirienio ein darpariaeth ar gyfer Cwricwlwm i Gymru;	<i>Mae ysgolion y clwstwr wedi bod yn gweithio yn agos i ddatblygu cwricwlwm perthnasol i ddisgyblion y rhan hon o'r ddinas, gan gynnwys cyflwyno cynllun genres laith a mapio medrau llafaredd. Rydym hefyd fel ysgol yn gwerthuso ein cwricwlwm yn gyson gan wneud newidiadau perthnasol pan fo angen. Roedd holiadur i staff yr ysgol ar hyn wedi arwain at rai newidiadau effeithiol yn ein darpariaeth gan gynnwys lle mwy amlwg i lais y disgybl yn y dosbarthiadau a bod eu syniadau nhw yn cael eu hystyried wrth drafod thema/agwedd o'r gwaith. Daeth holl ysgolion y clwstwr at ei gilydd ym Medi 2024 ar gyfer diwrnod HMS llwyddiannus a oedd yn gyfle i fynychu sesiynau amrywiol ar amrywiaeth a gwrth-hiliaeth gan gynnwys delio gyda sefyllfaoedd o hiliaeth yn yr ysgol a geirfa derbyniol. Mae mynychu rhaglen arweinyddiaeth DARPL yn golygu fod gan y pennaeth wybodaeth mwy cyfredol ac eang o sut i ddatblygu prosesau a systemau i sicrhau meddylfryd gwrth-hiliaeth trwy'r ysgol gyfan.</i>

BLAENORIAETH 2 – Datblygu Iechyd a Lles drwy'r ysgol gyfan	<i>Yn dilyn hyfforddiant gan aelod o dîm cynhwysiant yr awdurdod ar ddarpariaeth i bob plentyn ar lawr y dosbarth, rhoddwyd nifer o strategaethau effeithiol ar waith i wella ein darpariaeth lles meddyliol ac emosiynol ar draws yr ysgol. Un o'r rhain oedd datblygu dull o adnabod teimladau pob disgybl wrth iddynt gyrraedd y dosbarth yn y bore. Roedd rhannu holiadur SHRN gyda holl randdeiliaid yr ysgol hefyd yn fodd o werthuso ein darpariaeth ymhellach.</i>
BLAENORIAETH 3 – Cryfhau trefniadau hunan werthuso, monitro ac olrhain cynnydd disgyblion;	<i>Mae defnyddio'r system dracio Traciwr yn hwyluso'r broses o olrhain cynnydd pob disgybl trwy gydol eu cyfnod yn yr ysgol. Cynhaliwyd cyfarfodydd cynnydd yn ystod y flwyddyn ble roedd y cydlynwyr ADY ac Asesu yn cyfarfod gydag athrawon unigol i drafod cynnydd pob disgybl yn y dosbarth a beth ellir ei roi mewn lle ar gyfer disgyblion nad oeddent wedi dangos cynnydd digonol. Bydd yr agwedd hon yn cael sylw pellach yng nghynllun gwella ysgol 2025-2026 gan gynnwys tynhau ein prosesau hunan werthuso.</i>
BLAENORIAETH 4 – Gwella addysgeg drwy'r ysgol gyfan, yn enwedig dysgu annibynnol, llais y plentyn a dysgu cydweithredol.	<i>Wrth graffu llyfrau a siarad gyda disgyblion mae cysondeb amlwg i'w weld erbyn hyn o ran strategaethau asesu ffurfiannol a phob un plentyn a holwyd yn gallu egluro sut mae'r strategaethau hyn yn helpu iddynt wella eu Gwaith. Mireiniwyd ein disgwyliaid o asesu ffurfiannol mewn HMS yn dilyn yr ymchwil gweithredol diwethaf ac nawr mae canllaw cytun gan bob blwyddyn o'r disgwyliaid. Roedd sylwadau arolygwyr Estyn yn ystod ein arolygaid ym mis Mawrth yn atgyfnerthu hyn hefyd. Byddwn yn parhau i sicrhau mwy o gysondeb o ran strategaethau dysgu ac addysgu effeithiol a sut i hybu annibyniaeth y disgyblion ymhellach yn y flwyddyn academaidd 2025-2026.</i>

BLAENORIAETHAU CYNLLUN DATBLYGU YSGOL 2025/26

Blaenoriaeth	Camau Allweddol	Cefnogaeth
<p>1. Cryfhau arweinyddiaeth strategol a gwella gweithdrefnau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant er mwyn cryfhau a chysoni darpariaeth.</p>	<ul style="list-style-type: none"> ● Llunio amserlen gynhwysfawr a phwrpasol o weithgareddau hunanwerthuso i gynnwys holl randdeiliaid yr ysgol ● Cryfhau rol Llywodraethwyr a chyfrifoldebau holl aelodau o staff ● Sicrhau bod ein prosesau asesu ac olrhain cynnydd disgyblion yn effeithiol ar hyd eu taith ysgol ● Parhau i fireinio'r fframwaith asesu diwygiedig er mwyn diwallu anghenion dysgwyr, athrawon ac arweinwyr. 	<ul style="list-style-type: none"> ● Partner gwella i gynorthwyo a mynychu gweithgareddau hunanwerthuso ● Arweinwyr yn mynychu sesiynau rhwydwaith priodol i rannu arfer dda
<p>Cerrig Milltir Rhagfyr</p> <ul style="list-style-type: none"> ● Cylch gorchwyl isbwyllgorau Llywodraethwyr wedi eu hadolygu ac yn gyfredol ● Amserlen hunanwerthuso wedi ei bennu ar gyfer y flwyddyn academaidd gyfan ac i gynnwys holl randdeiliaid ● Dyddiad a gweithgareddau ailymweld yn glir yn y cynllun gwella ysgol ac yn yr adroddiadau monitro ● Holiaduron arweinyddiaeth wedi eu cwblhau gan holl athrawon a chynorthwywyr a chyfrifoldebau wedi eu haddasu yn unol â hynny ● Cyfarfodydd wedi eu cynnal gyda rhai ysgolion Cymraeg eraill yn y CLIP i rannu arfer dda o ran olrhain cynnydd ● Cyfarfodydd Adolygu Datblygiad Proffesiynol wedi eu cynnal gyda phob aelod o staff addysgu 	<p>Cerrig Milltir Mawrth</p> <ul style="list-style-type: none"> ● Staff yn ymwybodol o nodweddion Traciwr ac wedi trafod cynnydd eu disgyblion mewn cyfarfodydd cynnydd ● Pob aelod o staff wedi derbyn swydd ddisgrifiadau newydd i gynnwys eu cyfrifoldebau newydd cytunedig ● Ail-ymweld gyda chyfrifoldebau y staff a'r Timau Meysydd Dysgu a Phrofiad wedi cyfarfod i drafod datblygiadau yn eu meysydd ● Parhau i gyfarfod gyda rhai ysgolion Cymraeg eraill yn y CLIP i rannu arfer dda o ran olrhain cynnydd 	<p>Cerrig Milltir Gorffennaf</p> <ul style="list-style-type: none"> ● Holl staff addysgu yn hyderus wrth ddefnyddio system tracio'r ysgol ● Holl staff yn ymwybodol o'r hyn sy'n ddisgwylidiedig ganddynt ac yn deall eu rolau o fewn prosesau hunanwerthuso'r ysgol ● Systemau hunanwerthuso cadarn yn eu lle ● Llywodraethwyr wedi cael rhan weithredol yn nhrefniadau hunanwerthuso'r ysgol ac yn llwyr ymwybodol o safonau, cryfderau a meysydd i'w gwella.

<p>2. Darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu a'u datblygu'n ddysgwyr annibynnol</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Sicrhau bod y rhaglen dysgu proffesiynol yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd y ddarpariaeth. • Canfyddiadau sgwariau arsylwi yn cefnogi datblygiad egwyddorion addysgegol 	<ul style="list-style-type: none"> • Gweithredu ar gyngor rheolaidd y partner gwella ac ymgynghorydd addysgol
<p>Cerrig Milltir Rhagfyr</p> <ul style="list-style-type: none"> • Adborth ymweliad Partner Gwella ac ymgynghorydd addysgol yn nodi meysydd sy'n gryfder a meysydd i'w datblygu. • Sgwariau arsylwi yn yr Ysgol Isaf wedi bod er mwyn sicrhau cysondeb a rhannu arfer dda o ran hybu annibyniaeth y disgyblion a'r ddarpariaeth yn yr ardaloedd i hybu hyn. Cyfarfodydd unedau wedi eu cynnal i lunio canllaw cytun i'w dilyn wrth gynllunio er mwyn sicrhau cysondeb. • Hyfforddiant staff a chyfarfodydd adran yn arwain gwaith y tymor a'r flwyddyn o ran datblygu annibyniaeth. • Derbyn adborth pellach gan ymgynghorydd addysgol o ran gwella annibyniaeth trwy'r ysgol gyfan 	<p>Cerrig Milltir Mawrth</p> <ul style="list-style-type: none"> • Sgwariau arsylwi yn yr Ysgol Uchaf yn ffordd o rannu arfer dda a chysoni sut i weithredu ar gyngor ymgynghorydd addysgol o ran datblygiad Anturiaethau'r Berllan. Cyfarfodydd unedau wedi eu cynnal i lunio canllaw cytun i'w dilyn wrth gynllunio er mwyn sicrhau cysondeb. • Yn dilyn rhannu arfer dda, mae'r staff yn gweithredu ac yn dilyn argymhellion arbenigwyr • Monitro'r darpariaeth yn dangos bod llais y dysgwr yn amlwg wrth gynllunio anturiaethau trwy'r ysgol gyfan • Ardaloedd y tu allan i bob dosbarth yn hybu annibyniaeth o ran gallu dewis adnoddau mwyaf addas i'r dasg 	<p>Cerrig Milltir Gorffennaf</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gweithgarwch monitro yn dangos bod mwy o gyfleoedd i'r disgyblion gael mewnbwn yn eu dysgu a bod mwy o gyfleoedd i'r disgyblion gydweithio a darganfod gwybodaeth drostynt eu hunain. • Y rhan fwyaf o ddisgyblion yn arddangos nodweddion dysgwyr annibynnol effeithiol • Pob aelod o staff yn gwbl hyderus o beth yw nodweddion ddysgwyr annibynnol
<p>3. Cysoni arferion addysgu effeithiol ar draws yr ysgol a chodi disgwyliadau staff i ddarparu her gyson ar gyfer pob disgybl.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Canfyddiadau sgwariau arsylwi yn cefnogi datblygiad egwyddorion addysgegol • Sicrhau bod y monitro a'r adborth yn cael effaith 	<ul style="list-style-type: none"> • Gweithredu ar gyngor rheolaidd y partner gwella ac ymgynghorydd addysgol

	gadarnhaol ar ansawdd y ddarpariaeth.	
Cerrig Milltir Rhagfyr <ul style="list-style-type: none"> • Amserlen wedi ei bennu ar gyfer y flwyddyn academaidd gyfan o ran monitro a rhannu arfer dda er mwyn sicrhau cysondeb o ran yr addysgu a'r dysgu • Sgwariau arsylwi yn yr Ysgol Isaf wedi bod er mwyn sicrhau cysondeb a rhannu arfer dda yn yr addysgu a'r dysgu • Cyfarfodydd staff wedi eu pennu i edrych ar lyfrau • Trafodaethau wedi eu cynnal ar beth yw strategaethau addysgu a dysgu da • Cais am grant 'Arbrofi' Dysgu Creadigol y Cyngor Celfyddydau i gael mewnbwn Ymarferydd Creadigol wedi ei gwblhau 	Cerrig Milltir Mawrth <ul style="list-style-type: none"> • Gweithgareddau hunanwerthuso cadarn yn dangos bod y staff wedi ymateb ac yn gweithredu ar adborth o ran cysoni strategaethau addysgu a dysgu effeithiol • Canllawiau arfer dda a modelau gwersi ar sut i ymgorffori cwestiynu heriol ac agored yn cale eu defnyddio gan yr holl athrawon; • Monitro cysondeb yn yr addysgu a dysgu drwy arsylwadau a theithiau dysgu 	Cerrig Milltir Gorffennaf <ul style="list-style-type: none"> • Yr holl staff yn bodloni anghenion pob disgybl trwy wahaniaethu yn effeithiol • Teithiau dysgu yn dangos bod lefel yr her yn yn briodol ar gyfer pob gallu ac oedran • Tystiolaeth glir o gysondeb trwy'r ysgol gyfan • Rhannu arfer dda wedi arwain at gysondeb o ran nodweddion dysgu ac addysgu da trwy'r ysgol gyfan